



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Mae fy mraich i'n brifo rhywfaint. Cefais fy mrechiad atgyfnerthu COVID-19 ddoe yn Jabs 'r Us ym Mae Caerdydd. Dwi'n siŵr bod yr adeilad yn edrych yn llai na phan oedd yn llawn teganau, ond mater arall yw hynny. Mae fy anghysur i'n rhan fach o'r ffordd y mae'r pandemig wedi newid bywydau pawb ledled y byd, ac nid yw ysgolion y Fro yn eithriad i hynny.

Dwi'n llawn edmygedd o'r ffordd mae ysgolion wedi ymdopi gyda niferoedd mawr o staff a myfyrwyr yn absennol oherwydd COVID neu'n hunanynysu gan fod gan rywun ar eu haelwyd y feirws. Mae'r rhaglenni brechu llwyddiannus o gymorth mawr, ond bydd rhaid i ni fyw gyda hyn am gyfnod hir. Nid yw'r feirws wedi diflannu.

Mae'r tarfu ar fywydau plant dros y deunaw mis diwethaf yn parhau a pheidiwch â chredu pobl sy'n mynnu bod y feirws yn cael llai o effaith ar blant a phobl ifanc. Gall rhai fod yn ffodus, ond mae rhai oedolion yn cael dim symptomau, a rhai plant yn eu harddegau wedi bod yn sâl iawn. ac rwy'n adnabod llawer ohonyn nhw.

Ond mae ysgolion yn hyblyg, a'r rhan fwyaf o blant yn wydn ac yn ddyfeisgar. Mae addysg wedi parhau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Ond beth yw'r gost i staff sy'n cadw popeth i fynd

yn ein hysgolion? Un o'n rolau pwysicaf fel Llywodraethwyr yw sicrhau lles y bobl sy'n gweithio yn ein hysgolion. Ydyn nhw'n gofalu am eu hunain yn iawn o dan bwysau eithriadol? Oes angen rhywun arnyn nhw i rannu eu pryderon? Rhywun i wrando arnyn nhw â chydymdeimlad a chynnig cyngor gwybodus? Mae ein Penaethiaid a'n Huwch Reolwyr yn bobl frwdfrydig ac ymroddedig, ond mae angen rhywun i ddweud wrthyn nhw weithiau am arafu a chael seibiant.

Mae trafod Lles staff a myfyrwyr yn ffasiynol iawn ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn bwysicach nag erioed yn y cyfnod anarferol hwn. A yw'n eitem sefydlog ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu? Os na, pam?

I bob Llywodraethwr: Cadwch yn ddiogel. Gofalwch amdanoch eich hun a gofalwch am eich lles personol. Af yn ôl i nyrsio fy mraich gan wybod fy mod i ychydig yn fwy diogel nag oeddwn i echdoe, a bod rhywfaint o boen yn werth chweil yn yr hirdymor.

Dr Martin Price
Cadeirydd Cymdeithas
Llywodraethwyr
Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y
Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd
Gatholig Sant Richard Gwyn

Rhifyn 51 Tymor y Hydref 2021

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Adolygiad ar Broses Addysg Uwchradd 2021 (Blwyddyn 7) ac Addysg Gynradd 2021 (Cynradd)

Oherwydd ymdrechion y Tîm Derbyn i gysylltu â rhieni i gyflwyno cais, ond hefyd i roi cyngor ar y broses ymgeisio mewn perthynas â defnyddio dewisiadau lluosog a dewis ysgol y dalgylch fel dewis, cyflwynodd 99.4% o rieni plant sy'n mynychu Blwyddyn 6 mewn ysgol Gynradd ym Mro Morgannwg gais mewn pryd am le i'w plant mewn Addysg Uwchradd yn 2021. Rydym yn obeithiol y bydd hyn yn parhau i wella cyfradd yr ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael cynnig lle mewn ysgol i'w plentyn/plant yn ystod rownd gyntaf y dyraniadau a gadarnheir ar y dyddiad cynnig – 1 Mawrth 2021. Roedd hyn yn debyg ar gyfer y broses derbyn i'r dosbarth derbyn, lle cysylltwyd â rhieni dro ar ôl tro i sicrhau eu bod yn gwneud cais i'w plentyn fynychu dosbarth derbyn ym mis Medi 2021. Arweiniodd hyn at 99.8% o rieni'n cyflwyno cais yn brydlon. Byddant yn cael cynnig lle mewn ysgol ar y dyddiad cynnig sef 16 Ebrill 2021. Bydd y camau uchod a gymerodd y tîm derbyn yn sicrhau y bydd y mwyafrif helaeth o rieni yn cael cynnig lle mewn ysgol i'w plentyn/plant ar y dyddiadau cynnig cenedlaethol a nodwyd uchod.

Ymddengys fod proses dderbyn ar-lein y Cyngor bellach wedi ennill ei lle, gyda 92% o rieni yn gwneud cais ar-lein yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21, am le Blwyddyn 7 ym mis Medi 2021 sydd yn debyg i'r 3 blynedd flaenorol a fu rhwng 90-95%

Diweddariad ar Drefniadau Derbyn Cydlynol ar gyfer 2020-21

Ar ôl ymgynghoriad i barhau â'r cynllun yn treialu trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer grŵp dosbarth Derbyn blwyddyn 2019-20, cytunodd cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes gymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch hefyd ymgeisio am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein.

Mae'r cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus ac wedi galluogi rhieni i nodi dewisiadau ychwanegol gan ddatrys hefyd y broblem gyda rhieni'n cael cynnig nifer o leoedd drwy wahanol awdurdodau derbyn. Mae hyn felly'n creu proses fwy tryloyw i rieni, ysgolion a'r awdurdod lleol. Ceir adborth yn barhaus gan yr ysgolion a'r rhieni sy'n cymryd rhan o ran sut mae modd gwella'r broses ac rydym yn awyddus i wella'r cymorth sydd ar gael i bawb pan fo'n bosibl.

Hefyd ym mlwyddyn academiaidd 2020-21 bydd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn cymryd rhan mewn cynllun peilot ar Bontio i Addysg Uwchradd 2021-22. Mae'r cynllun peilot wedi'i gynllunio gyda'r un egwyddorion â chynllun peilot y derbyniadau cynradd. Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg gallwch nawr hefyd wneud cais am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gwell i rieni ac yn cynnig mwy o eglurder a chyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol i'r ysgol a'r awdurdod lleol gan sicrhau nad yw disgyblion yn cael mwy nag un cynnig lle mewn ysgol uwchradd ar y dyddiad cynnig cenedlaethol.

Sam Mawhinney

**Swyddog Derbyniadau Cynorthwyol / Logistics & Access Officer
Strategaeth, Dysgu yn y Gymuned ac Adnoddau / School Improvement & Inclusion**

Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau pan fydd cyfyngiadau ar niferoedd dysgwyr

Cliciwch ar y ddolen isod:

https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-pan-fydd-cyfyngiadau-ar-niferoedd-dysgwyr?_ga=2.1810484.466781000.1614769913-2131067364.1612539008

CANLLAWIAU (IFUS) IAITH GYMRAEG AR GYFER DYFEISIAU LLIF UNFFORDD (LFDS)

Yn ein hymateb i'r pandemig rydym wedi bod yn gweithio ar frys i sicrhau bod gwasanaethau a gwybodaeth argyfwng wedi bod ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosib. Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd wrth i rai o'r rhain orfod cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig.

Rydym nawr mewn sefyllfa i gynnig IFUs iaith Gymraeg er mwyn cynnig gwasanaethau, yn enwedig i'r rheiny sy'n fregus, yn agored i niwed ac wedi eu heffeithio gan y pandemig, yn Gymraeg. Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg, ni ddylai'r fersiwn iaith Gymraeg o ddeunydd gael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn iaith Saesneg felly byddwn yn danfon dyraniad o IFUs iaith Gymraeg i Awdurdodau Lleol i ddosbarthu i ysgolion, colegau a lleoliadau gofal plant lleol.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU er mwyn gwella hwn ar gyfer cyflenwadau yn y dyfodol, lle bydd IFUs iaith Gymraeg yn cael eu dosbarthu gyda fersiynau Saesneg.

Yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus, mae gallu cynnig gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg yn hollbwysig. Wrth i bryderon barhau yn ystod y pandemig, bydd nifer o'r rheiny sydd wedi eu heffeithio gan y feirws yn dibynnu ar dderbyn gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg.

Tîm Covid Profion Addysg a Gofal Plant Llywodraeth Cymrut

MAE PECYN IECHYD MEDDWL E-DDYSGU MIND BELLACH YN FYW

Mae Partneriaeth Llesiant y Consortia wedi gweithio gyda @MindCymru i ddarparu mynediad at becyn e-ddysgu ymwbyddiaeth iechyd meddwl 45 munud ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru - i gael mwy o fanylion a mynediad:

https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2021/10/MIND-Mental-Health-Awareness-E-Learning-Module_welsh.pdf

Gyda'n gilydd! Creu cyngor ysgol uwchradd cryf sy'n cynrychioli pawb.

Yn 2019 a 2020 ymgynghorodd Comisiynydd Plant Cymru gyda dros 7000 o fobl ifanc a dros 400 o weithwyr proffesiynol a llywodraethwyr am gynghorau ysgol. Fe ddywedoch chi wrthym fod cynghorau ysgol yn ffordd bwysig o sicrhau bod pobl ifanc yn cael yr hawl i ddweud eu dweud am benderfyniadau. Hefyd fe wnaethoch chi rannu eich profiadau ar sut y gall lleisiau pobl ifanc helpu i wneud penderfyniadau i gefnogi lles, dysgu a chydaddoldeb.

Er mwyn i ni fod yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd, mae'r Comisiynydd Plant yn cyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn: **GYDA'N GILYDD: Creu cyngor ysgol uwchradd gryf sy'n cynrychioli pawb - Children's Commissioner for Wales (complantcymru.org.uk)** Yn yr ymgynghoriad fe welwch astudiaethau achos, ffilmau, awgrymiadau da ac adnoddau i helpu pob lleoliad uwchradd i sicrhau bod ganddyn nhw gyngor ysgol wedi'i rymuso sy'n gallu gwneud gwahaniaeth.

Bydd yr adroddiad a'r adnoddau ymarferol yn ysbrydoli Penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr a phobl ifanc. Mae'r adnoddau'n cynnwys adnodd hunan-asesu ar gyfer pobl ifanc a gwybodaeth ac arweiniad hygyrch gyda chefnogaeth symbolau.

Jane Houston
Cynghorydd Polisi
Comisiynydd Plant Cymru

Cwmni arlwyo Big Fresh yn mynd o nerth i nerth

"Rwyf wrth fy modd y bydd mwy na £500,000 eleni yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion, grwpiau cymunedol ac yn mynd tuag at gefnogi gweithrediadau masnachol.

"Bydd arian yn cyrraedd ysgolion mewn amrywiaeth o ffyrdd, drwy grant uniongyrchol, cronfa a rennir i ddarparu rhaglenni cymorth y tu allan i'r ysgol a thrwy fuddsoddi mewn cynhwysion, eitemau bwydlen a thechnolegau newydd i adlewyrchu anghenion a cheisiadau ein cwsmeriaid a'n hysgolion Big Fresh."

Meddai Carole Tyley

Rheolwr Gyfarwyddwr y Cwmni Arlwyo Big Fresh





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyrrff llywodraethu ysgolion – disgrifiad o'r rôl

Darperir y ddogfen hon i roi dealltwriaeth i gyrrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru o fanteision penodi hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eu hysgol a'r dyletswyddau y gallant eu cyflawni. Nid yw penodi hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn newid y gofynion ar gorff llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau cydraddoldeb statudol fel y'u rhestrir.

Pam mae angen hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth ar fy nghorff llywodraethu?

Dylai pob ysgol yng Nghymru ymroi i fod mor gynhwysol a chroesawgar â phosibl. Dylid dathlu gwahaniaethau, nid gwneud hwyl am eu pen a'u cwestiynu. Dylai fod gan ysgolion bolisi dim goddefgarwch tuag at fwlio ac aflonyddu o bob math. Mae penodi hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn un ffordd o ddangos i gymuned yr ysgol bod eich corff llywodraethu yn cymryd y mater hwn o ddifrif a'i fod am arwain drwy esiamp¹.

Beth mae'n ei olygu?

Dylai hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn barod i godi llais dros gydraddoldeb ac amrywiaeth bob amser ac ym mhob penderfyniad polisi. Dylai deimlo'n gyffyrddus i herio arweinwyr yr ysgol a'r llywodraethwyr os yw'n teimlo bod yr ysgol yn syrthio'n brin o'r safon neu'n gweithredu mewn ffordd sy'n gwahaniaethu. Dylai hefyd godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb.

Dylai hyrwyddwyr hefyd weithio gyda'r pennaeth a'r awdurdod lleol i fonitro a diweddarau cynlluniau cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol. Bydd hyn yn rhoi atebolrwydd i'r ysgol ar effeithiolrwydd ei pholisïau.

Pa gymwysterau, hyfforddiant neu brofiad arbennig sydd eu hangen arnaf i ysgwyddo'r rôl hon?

Dim. Y cyfan sydd ei angen i fod yn hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth yw brwdfrydedd dros sicrhau tegwch i bawb.

Fodd bynnag, efallai y bydd hyrwyddwr am fanteisio ar unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gynigir gan eu hawdurdod lleol neu gonsortiwm sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i helpu i ddwyn eu tîm arweinyddiaeth ysgolion i gyfrif mewn ffordd ystyrlon.

Ble gallaf ddod o hyd i help a chefnogaeth ar faterion amrywiaeth?

Mae yna lawer o adnoddau ar-lein i'ch helpu i adnabod achos o wahaniaethu. Mae cyrff trydydd sector fel [Dangos y Cerdyn Coch i Hilïaeth](#), [Stonewall Cymru](#) a [SNAP Cymru](#) i gyd yn llefydd da i ddechrau. Efallai y bydd eich awdurdod lleol hefyd yn cynnig hyfforddiant ar gydraddoldeb, yn ogystal â'r hyn a gynigir yn y pecyn hyfforddiant cynefino gorfodol i lywodraethwyr. Ar gyfer staff o gefndir Ethnig Lleiafrifol byddai hefyd yn ddefnyddiol eu cyfeirio at rwydwaith [BAMEed Cymru](#)

¹ Mae [canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn a ddisgwylir gan gyrrff llywodraethu mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pa gwestiynau ddylai'r hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn eu gofyn i'r pennaeth a'r corff llywodraethu?

Dylai'r hyrwyddwr cydraddoldeb ac amrywiaeth fod yn barod i ofyn beth mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn ei wneud i sicrhau bod yr ysgol yn esiampl o ran amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb. Dyma rai enghreifftiau:

- Sut mae ethos yr ysgol yn dathlu gwahaniaethau?
- Sut ydym yn datblygu dealltwriaeth cymuned yr ysgol gyfan am wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd?
- Esboniwch sut mae'r ysgol yn ymdrin â honiadau o hiliaeth / homoffobia / trawsffobia / bwlio ar sail anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys staff a dysgwyr)². Ydy'r dull gweithredu hwn yn ddigon da?
- Pwy yw'r unigolyn / unigolion sydd wedi'i bennu / wedi'u pennu i staff a dysgwyr droi ato / atynt os oes ganddynt bryderon? Pa brosesau sydd ar waith i helpu staff a dysgwyr godi eu llais heb ofni cael eu cywilyddio ac yn y sicrwydd yr ymdrinnir â'r mater yn briodol?
- Yn eich barn chi, ym mha ffyrdd mae'r addysgu a dysgu yn yr ysgol yn adlewyrchu amrywiaeth fel thema trawsbynciol yn y cwricwlwm? Pa fath o ddyfeisgarwch a mentrau sy'n cael eu rhoi yn eu lle?
- Pa mor gynhwysol yw'r polisi o ran gwisg ysgol?³
- Sut caiff safbwyntiau a barn dysgwyr ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr ysgol eu cofnodi a'u hystyried?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff yr ysgol a'r corff llywodraethu mor amrywiol â phosibl ac yn cynrychioli ein cymuned gymaint ag y bo modd?
- Pa gamau gwirio a ddilynir i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011?⁴
- Beth ydym ni'n ei wneud i weithredu argymhellion [Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol](#)
- Sut y gallwn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i bolisiau ysgolion neu bolisiau ysgol newydd yn cael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol?
- Beth yn rhagor allwn ni ei wneud fel ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth?

² Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gofnodi digwyddiadau bwlio o fewn [Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau i ysgolion](#)

³ Gellir dod o hyd i ganllawiau ar faterion cydraddoldeb a pholisiau gwisg ysgol o fewn [Polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu](#)

⁴ Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

BWLETIN LLYWODRAETHWYR YSGOLION YNG NGHYMRU **RHIFYN 8 – TACHWEDD 2021**

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

22 Hydref 2021 - **Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y gwaith o weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd**

14 Hydref 2021 - **Buddsoddiad i wella dulliau awyru mewn ysgolion ac amgylcheddau dysgu**

27 Medi 2021 - **Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau penodiadau i Gyngor y Gweithlu Addysg**

24 Medi 2021 - **Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cadarnhau penodiadau i Fwrdd Cymwysterau Cymru**

22 Medi 2021 - **Datganiad Ysgrifenedig: Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm**

8 Medi 2021 - **Datganiad Ysgrifenedig: Codiad Cyflog Athrawon 2021**

NEWYDDION

HYFFORDDIANT GWRTH-FWLIO AR GYFER LLYWODRAETHWYR A ARIENNIR GAN Y LLYWODRAETH

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Kidscape i ddarparu rhaglen o hyfforddiant gwrth-fwllo i lywodraethwyr yng Nghymru yn 2021 a 2022.

Mae cynnwys yr hyfforddiant hwn wedi'i lywio drwy ymgynghori â llywodraethwyr yng Nghymru a'i ddatblygu gyda chymorth y Gynghair Gwrth-fwllo.

Am fwy o wybodaeth ac i archebu eich lle ewch i [Hyfforddiant gwrth-fwllo i lywodraethwyr yng Nghymru](#) – mae sesiynau Cymraeg ar gael ar 25 Tachwedd 2021 a 10 Mai 2022.

DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD I AFLONYDDU RHYWIOL RHWNG CYFOEDION MEWN LLEOLIADAU ADDYSG

"LLONGYFARCHIADAU MAWR I DDYSGWYR TGAU A GALWEDIGAETHOL LEDLED CYMRU" – Y GWEINIDOG ADDYSG

CYHOEDDI PRIF AROLYGYDD NEWYDD ESTYN

CANLLAWIAU

DIWEDDARU CANLLAW I'R GYFRAITH I LYWODRAETHWYR YSGOLION

Rydym yn diweddaru'r canllaw fesul pennod. Hyd yn hyn, mae penodau 1-5, 7, 12 a 19 wedi'u cyhoeddi ynghyd ag atodiadau 1-3. Cadwch lygad am ddiweddariadau pellach.

DIOGELU GWYBODAETH FIOMETRIG: CANLLAWIAU I YSGOLION A SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH

Diweddarwyd ddiwethaf 5 Hydref 2021

ADNEWYDDU A DIWYGIO: CEFNOGI LLES A CHYNNYDD DYSGWYR

Diweddarwyd ddiwethaf 22 Medi 2021

CALENDR CASGLU DATA A GWYBODAETH

Diweddarwyd ddiwethaf 3 Medi 2021

CANLLAWIAU I YSGOLION ROI'R STRATEGAETH RHEOLI GWYBODAETH AR WAITH

Diweddarwyd ddiwethaf 27 Awst 2021

CORONAFEIRWS

GWEITHREDIADAU YSGOL: CORONAFEIRWS

Diweddarwyd 12 Hydref 2021

PRESENOLDEB MEWN YSGOLION (CORONAFEIRWS): CANLLAWIAU I YSGOLION

Diweddarwyd 20 Hydref 2021

DYFEISIAU MONITRO CARBON DEUOCSID MEWN LLEOLIADAU ADDYSG

Diweddarwyd ddiwethaf 15 Hydref 2021

APELIADAU YNGHYLCH DERBYN DYSGWYR I YSGOLION: CORONAFEIRWS (COVID-19)

Diweddarwyd ddiwethaf 29 Medi 2021

NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL SY'N DEILLIO O DDEDDF CORONAFEIRWS 2020

RHEOLIADAU ADDYSG (TREFNIADAU APELAU DERBYN) (CYMRU) (CORONAFEIRWS) (DIWYGIO)

(DIWYGIO) 2021 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020.

RHEOLIADAU LLACIO'R GOFYNION ADRODD MEWN YSGOLION (CYMRU) (CORONAFEIRWS) 2021

Mae'r Rheoliadau hyn yn llacio nifer o ofynion ar ysgolion o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

YMGYNGHORIADAU A CHYFLEOEDD I ROI ADBORTH

DATGANIAD YSGRIFENEDIG: YMGYNGHORIAD AR IS-DDEDDFWRIAETH AR GYFER Y TREFNIADAU ASESU O GANLYNIAD I DDEDDF CWRICWLWM AC ASESU (CYMRU) 2021 6 Medi 2021

CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGOL AR GYFER URDDAS MISLIF Ymgynghoriad yn cau 12 Ionawr 2022

COD DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG Manylion am y canlyniad

Y COD CYNNYDD DRAFFT Manylion am y canlyniad

POLISI CENEDLAETHOL SEILWAITH IEITHYDDOL Y GYMRAEG Manylion am y canlyniad

CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION Manylion am y canlyniad

DYSGWCH FWY

COFRESTRWCH I DYSG / MAE ADDYSG YN NEWID / CENHADAETH EIN CENEDL BLOG CWRICWLWM I GYMRU

CWRICWLWM I GYMRU 2022 / FFRAMWAITH CYMHWYSEDD DIGIDOL / HWB

DILYNWCH NI AR FACEBOOK: Education Wales

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@WG_Education / @WelshGovernment / @HwbNews

DILYNWCH NI AR YOUTUBE: Education Wales

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiad cyffredinol, gallwch cysylltu â ni at: SMED2@llyw.cymru

DERBYNIADAU YSGOL CYDLYNOL

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithredu trefniadau derbyn cydgysylltiedig ar gyfer y broses Derbyn i Ysgolion Cynradd ers dechrau cynllun peilot ar gyfer derbyn 2019-20.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llannsannor, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes ac ar gyfer derbyniad 2022-23, mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff wedi cytuno i fod yn rhan o'r trefniadau cyd-gysylltiedig.

Roedd proses Derbyn i Ysgolion Uwchradd 2021-22 hefyd yn gweld corff llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn dod yn rhan o'r trefniadau derbyn cyd-gysylltiedig.

Nid yw'r trefniadau cyd-gysylltiedig yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar gymhwyso ysgolion unigol na pholisïau derbyn cynghorau. Mae'n ymarfer gweinyddol yn unig sydd wedi helpu i ddeall manteision derbyniadau cyd-gysylltiedig, yn enwedig fel ffordd o gefnogi teuluoedd i sicrhau eu dewis cyntaf ar gyfer lle mewn ysgol ac osgoi'r gofid a achosir i rieni gan gynigion gohiriedig ac apeliadau diangen.

Drwy gydweithio ar y derbyniadau ysgol cyd-gysylltiedig, mae wedi arwain at fwy o ddisgyblion yn sicrhau lle yn y rownd gyntaf o ddyraniadau ac wedi lleihau nifer y teuluoedd a fyddai wedi gorfod aros cryn amser o'r blaen am gynnig lle neu wrandawriad apêl.

Y gobaith yw y byddwn, yn y dyfodol, yn gweld gweddill yr ysgolion ffydd ym Mro Morgannwg yn ymuno â'r trefniadau cyd-gysylltiedig er mwyn sicrhau gwell tryloywder i rieni a disgyblion a hefyd mwy o gynllunio a threfniadaeth ar gyfer ysgolion a'r awdurdod lleol.

Sam Mawhinney
Strategaeth, Dysgu yn y Gymuned ac Adnoddau

Cymwysterau Cymru yn cadarnhau dull graddio 2022

Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau'r dull graddio a'r cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfres arholiadau haf 2022 ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau CBAC.

Os gwelwch yn dda Ctrl + Cliciwcw ar y ddolen isod i gael mwy o wybodaeth.

[HTTPS://QUALIFICATIONSWALES.ORG/CYMRAEG/NEWYDDION/CYMWYSTERAU-CYMRU-YN-CADARNHAU-DULL-GRADDIO-2022/](https://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/cymwysterau-cymru-yn-cadarnhau-dull-graddio-2022/)

DYDDIAD AM EICH DYDDIADUR

A allech chi wneud nodyn yn eich dyddiadur ar gyfer y Diweddariad Addysg nesaf a'r Sesiwn Briffio fydd

Dydd Mercher 29 Mehefin 2022 am 5.30pm

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2020-22

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
7	Mrs	S	Jenkins-Welch	Ysgol Gynradd C/W St Andrews Cynhwysfawr St Cyres
8	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St Athan
9	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Gladstone.
10	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
12	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
13	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
14	Swydd Wag			
15	Swydd Wag			
PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr				
PGR - Prim Gwag				
PGR - Sec Gwag				

Nadolig Glawen a Blwyddyn Newydd Dda
gan bawb yn y Uned Cefnogi Llywodraethwyr

